



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Cefnogi myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg a myfyrwyr sy'n astudio drwy'r Gymraeg

gwybodaeth i staff

Cyflwyniad

Mae'r llyfryn hwn wedi ei baratoi er mwyn cynorthwyo staff academaidd a gweinyddol i gefnogi myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg, a myfyrwyr sy'n astudio trwy'r Gymraeg.

Bwriad y llyfryn yw cyflwyno gwybodaeth o dan wahanol benawdau ar wahanol agweddau, fel bod staff yn gallu cyfeirio myfyrwyr at ddarpariaeth a chefnogaeth addas.

Mae'r llyfryn at ddefnydd pawb sy'n gweithio gyda myfyrwyr - darlithwyr, tiwtoriaid personol, gweinyddwyr ayyb.

Gobeithio y bydd y wybodaeth o fudd i chi.

Cynnwys

- 1. Defnyddio'r Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor**
- 2. Yr Wythnos Groeso**
- 3. Sut i gael gwybodaeth am fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg**
- 4. Modiwlau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog**
 - (i)** cod modiwlau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog
 - (ii)** Banner
 - (iii)** llawlyfrau modiwlau Cymraeg/dwyieithog
- 5. Bwrsariaethau/arian ar gyfer israddedigion**
 - (i)** bwrsariaethau astudio trwy'r Gymraeg
 - (ii)** ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- 6. Canolfan Bedwyr - cefnogaeth ieithyddol i fyfyrwyr**
 - (i)** modiwlau sgiliau iaith
 - (ii)** cyfieithu
 - (iii)** Cysgliad
 - (iv)** terminoleg
 - (v)** cymorth ar-lein
 - (vi)** canllawiau ieithyddol
- 7. Cefnogaeth astudio i fyfyrwyr**
- 8. Myfyrwyr ôl-radd cyfrwng Cymraeg**
- 9. Coleg Cymraeg Cenedlaethol**
- 10. Y Porth**
- 11. UMCB/Undeb y Myfyrwyr**
- 12. Cysylltiadau defnyddiol**

1. Defnyddio'r Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor

Defnyddio'r Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor

Mae'r Gymraeg yn rhan gwbl naturiol o fywyd ym Mhrifysgol Bangor a'r ardal ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yng ngwaith bob dydd y Brifysgol. Mae *Cynllun Iaith* y Brifysgol yn sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal a bod cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio'r Gymraeg wrth astudio ac wrth ddefnyddio gwasanaethau'r Brifysgol.

Astudio drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae mwy o fyfyrwyr yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mangor nag mewn unrhyw Brifysgol arall. Erbyn hyn, mae modiwlau cyfrwng Cymraeg ar gael ym mhob maes pwnc. Mae'n bwysig cofio hefyd fod gan fyfyrwyr hawl i gyflwyno eu gwaith yn y Gymraeg, hyd yn oed os mai yn Saesneg y mae'r modiwl yn cael ei addysgu (gweler adran 6(ii) am gyfarwyddiadau ar sut i yrru gwaith myfyrwyr i'w gyfieithu).

Gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg

Yn unol â'r *Cynllun Iaith*, mae gwasanaethau'r Brifysgol ar gael i fyfyrwyr trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r iaith y mae myfyrwyr eisiau i'r Brifysgol gyfathrebu â nhw ynddi wedi'i nodi yn Banner a dylid parchu'r dewis iaith hwn wrth yrru gohebiaeth bersonol atynt. Er mwyn pwysleisio statws yr iaith Gymraeg yn y Brifysgol a rhoi hyder i fyfyrwyr ddefnyddio'r Gymraeg, mae'n arfer dda i negeseuon e-bost at grwpiau o fyfyrwyr fod yn ddwyieithog (nid yw hyn yn angenrheidiol ar gyfer e-byst yn ymwneud â modiwlau cyfrwng Saesneg). Dylai posteri ar hysbysfyrdau, llawlyfrau Ysgol a.y.b. hefyd fod yn ddwyieithog.

Os oes gennych gwestiwn am y *Cynllun Iaith*, mae croeso i chi gysylltu â Dr Lowri Ahronson, Cyfarwyddwr y Cynllun Iaith.

2. Yr Wythnos Groeso

Mae'r Wythnos Groeso yn gyfle gwych i dynnu sylw myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg at y gwasanaethau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn y brifysgol, ac at y cyfleoedd i astudio trwy'r Gymraeg.

Mae rhaglen gyflawn o weithgareddau wedi ei chynllunio ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn ystod yr Wythnos Groeso. Y bwriad yw estyn allan at gymaint â phosib o'r myfyrwyr sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg, er mwyn cyfleu'r neges fod nifer fawr o gyfleoedd cyffrous i'w canfod, yn academiaidd ac yn gymdeithasol. Dylid annog y myfyrwyr i fynychu'r digwyddiadau hyn yn ystod yr wythnos groeso.

Yn ogystal â'r digwyddiadau cymdeithasol sydd fel arfer yn cael eu trefnu gan y Colegau/Ysgolion, dyma brif ddigwyddiadau'r wythnos o ran gweithgareddau cyfrwng Cymraeg:

- **Dydd Llun yr wythnos groeso**
Cyflwyniad i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mangor, a ffair fodiwlau cyfrwng Cymraeg. Arweinir gan Wyn Thomas, Dirprwy Is-ganghellor Cyfrwng Cymraeg. Cynhelir dwy sesiwn yn Neuadd Powis am 10.30-11.30am a 11.30-12.30pm. Bydd y sesiynau yn rhedeg cyn/ar ôl croeso ffurfiol yr Is-ganghellor yn Neuadd PJ, ac yn orfodol i'r myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg. Bydd croeso hefyd i ddysgwyr (bydd offer cyfieithu ar gael). Bydd yna hefyd ffair fodiwlau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog. Bydd cynrychiolwyr o bob ysgol yn bresennol, felly bydd yn gyfle da i'r myfyrwyr gwrdd â'r staff. Mae'r sesiwn hon hefyd yn gyfle da i ddod i wybod mwy am y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
- Hefyd yn ystod yr wythnos groeso, bydd rhai Ysgolion yn cynnal **Sesiwn sgiliau Cymraeg** sef cyflwyniad ar bwysigrwydd sgiliau iaith, sut i'w datblygu a pha gefnogaeth sydd ar gael.
- Bydd rhai Colegau/Ysgolion unigol hefyd yn trefnu sesiynau **hyfforddiant Cysgliad** (pecyn cyfrifiadurol sy'n gwirio gramadeg a sillafu ac sy'n cynnwys geiriadur electronig) yn ystod yr wythnos, neu yn yr wythnosau i ddilyn.

Arweinwyr Cyfoed

Bydd yr arweinwyr cyfoed yn lledaenu'r neges am y cyfleoedd cyfrwng Cymraeg yn ystod yr Wythnos Groeso. Byddant yn derbyn gwybodaeth am y ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg, i'w rhannu gyda'r myfyrwyr.

3. Sut i gael gwybodaeth am fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg

Mae swyddfa'r Dirprwy Is-ganghellor, Wyn Thomas, wedi paratoi rhestr o fyfyrwyr y flwyddyn 1af sy'n siarad Cymraeg ym mhob Ysgol. Bydd y rhestr hon yn cael ei dosbarthu i bob Ysgol.

Gellir hefyd edrych ar Banner i weld faint o fyfyrwyr sydd wedi nodi eu bod yn siarad Cymraeg.

4. Modiwlau cyfrwng Cymraeg/dwyeithog

Mae modiwlau Cymraeg ar gael ym *mhob* ysgol yn y brifysgol (ond bod mwy ar gael mewn ambell ysgol na'i gilydd).

Beth ydy manteision astudio drwy'r Gymraeg neu'n ddwyeithog?

- ennyn gwell dealltwriaeth o'r pwnc gan fod y myfyriwr yn dysgu, i bob pwrpas, mewn dwy iaith
- cynnal sgiliau ieithyddol sydd eisoes wedi eu meithrin yn yr ysgol
- datblygu sgiliau gwybyddol
- datblygu cyfleoedd cyflogaeth gan fod angen pobl ddwyeithog mewn pob math o swyddi
- rhoi sylfaen ardderchog i yrfa

Sut fedra i ddarbwylllo myfyriwr sydd yn amheus o astudio modiwlau drwy'r Gymraeg?

Er bod sawl mantais o ddilyn modiwlau trwy'r Gymraeg, mae'r syniad yn parhau i beri pryder i rai myfyriwr. Dyma rai o'r prif bryderon:

- poeni nad yw eu Cymraeg yn 'ddigon da'
- poeni na fyddant yn deall y derminoleg yn Gymraeg
- poeni nad oes llyfrau/gwerslyfrau Cymraeg ar gael i gefnogi'r dysgu

Mae cefnogaeth ar gael ar gyfer pob un o'r pryderon hyn – gweler adran 6 am fanylion. Mae'r darlithwyr neu'r tiwtoriaid personol hefyd ar gael i roi cyngor ar unrhyw agwedd o ddysgu trwy'r Gymraeg.

(i) cod modiwlau cyfrwng Cymraeg/dwyeithog

Fel rhan o ymdrech Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio drwy'r Gymraeg, mae CCAUC (HEFCW) yn dyfarnu premiwm ariannol ar gyfer cofrestriadau ar fodiwlau cyfrwng Cymraeg.

Fel arfer, fe nodir a ydy modiwl yn un Cymraeg/dwyeithog gyda chod yn cynnwys y llythyren C neu D e.e.

- ACB1104 Cyflwyniad i Farchnata
- CXD1016 Sgriptio Teledu

Yn sefydliadol, mae hyn yn golygu:

- fod gan yr ysgol hawl i dderbyn premiwm ariannol gan CCAUC am bob cofrestriad ar y modiwl
- fod y brifysgol yn gallu tracio faint o bobl sy'n dilyn modiwlau Cymraeg

(ii) Banner


Mae manylion a chod pob modiwl yn cael eu cofnodi yn system Banner. Mae'r manylion hyn yn sail i'r wybodaeth sydd ar y Gazette, ac mae'r myfyrwyr yn defnyddio'r Gazette i ddewis eu modiwlau. Felly, mae'n holl bwysig fod pob modiwl wedi eu cynnwys ar Banner, yn cynnwys y modiwlau hynny sydd â chod Cymraeg/dwyeithog.

Unwaith y bydd y myfyrwyr wedi dewis eu modiwlau, mae'r ysgolion yn cofnodi'r dewisiadau ar y system Banner. Gan fod dau god gwahanol i rai modiwlau (un cyfrwng Saesneg, ac un cyfrwng Cymraeg neu ddwyeithog), dylid sicrhau bod y cod cywir yn cael ei gofnodi yn Banner.

Cofiwch sicrhau bod y myfyrwyr yn cofrestru ar y modiwl gyda'r cod cywir!

(iii) Llawlyfr modiwlau Cymraeg/dwyeithog

Cyhoeddir llyfryn bob blwyddyn sy'n rhestru'r modiwlau Cymraeg/dwyeithog sydd ar gael i fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf. Cyhoeddir *Llawlyfr modiwlau Cymraeg a Dwyeithog Blwyddyn 1* yn ystod yr haf, yn barod ar gyfer y myfyrwyr newydd ym mis Medi.



Mae'r llawlyfr yn cael ei ddsbarthu i bob ysgol ac i nifer o'r adrannau gwasanaeth, fel bod myfyrwyr yn gallu ei ddefnyddio i ddewis eu modiwlau.

Mae'n ddefnyddiol ar gyfer dangos cymaint o fodiwlau Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael, ac felly hefyd yn cael ei ddefnyddio mewn diwrnodau agored, ffeiriau ysgolion, yr Eisteddfod ayyb.

Gellir hefyd cael rhestr o'r holl fodiwlau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog ar y *Gazette*. Mae cwmpen benodol ar eu cyfer, felly dylid sicrhau bod y myfyrwyr yn defnyddio'r gwmpen er mwyn cael rhestr gyflawn o'r modiwlau.

Os hoffech dderbyn llyfrynnau i'w dosbarthu, cysylltwch ag Eirian Jones ar e.jones@bangor.ac.uk

5. Bwrsariaethau / arian ar gyfer israddedigion

Mae dwy fath o fwrsariaeth ar gyfer israddedigion sy'n astudio drwy'r Gymraeg:

(i) bwrsariaethau astudio trwy'r Gymraeg

Os ydy myfyriwr yn dewis astudio 40 credyd neu fwy y flwyddyn drwy'r Gymraeg, mae Bangor yn cynnig bwrsariaeth o £250 bob blwyddyn.

I wneud cais ar gyfer y fwrsariaeth hon, rhaid i'r myfyriwr lenwi'r ffurflen *Cais am Gyllid i Fyfyriwr* sydd ar gael gan eu hawdurdod addysg lleol. Mae rhai cyfyngiadau ar y fwrsariaeth hon. Ceir amodau llawn ar

<http://www.bangor.ac.uk/studentfinance/info/welshbursary.php.cy>

neu dylid cysylltu â'r Uned Cyngor Ariannol ar cymorthariannol@bangor.ac.uk

(ii) ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (gweler adran 9 am fwy ar y CCC) yn cynnig dau gynllun o ysgoloriaethau israddedig:

- Prif ysgoloriaethau
 - £1000 y flwyddyn
 - rhaid astudio o leiaf 80 credyd bob blwyddyn drwy'r Gymraeg
- Ysgoloriaethau cymhelliant
 - £500 y flwyddyn
 - rhaid astudio o leiaf 40 credyd y flwyddyn trwy'r Gymraeg mewn meysydd penodol

Mae angen i fyfyrwyr ymgeisio am yr ysgoloriaethau hyn cyn iddynt ddod i Fangor. Ceir manylion llawn, a chanllawiau ar sut i ymgeisio ar wefan Coleg Cymraeg Cenedlaethol www.colegcymraeg.ac.uk

Gweler adran 8 (iii) am fanylion am yr ysgoloriaethau ôl-raddedig.

6. Canolfan Bedwyr - cefnogaeth ieithyddol i fyfyrwyr

Mae Canolfan Bedwyr wedi ei lleoli yn adeilad Dyfrdwy ar Ffordd y Coleg, ac mae croeso i fyfyrwyr neu staff alw i mewn am sgwrs.

Mae'r Ganolfan yn cynnig cefnogaeth ieithyddol i fyfyrwyr, gyda'r nod o ddatblygu eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'n gweithio gydag ysgolion ar draws y brifysgol, yn darparu cyrsiau ac adnoddau arbenigol ar gyfer y Gymraeg.

Dyma'r math o gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer myfyrwyr:

(i) modiwlau sgiliau iaith

Mae rhai myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yn teimlo nad yw eu Cymraeg llafar neu ysgrifenedig yn 'ddigon da'. Os ydynt yn poeni am safon eu Cymraeg, yn hytrach na pharhau i deimlo'n ddihyder ac ansicr, mae modd iddynt ddilyn un o'r modiwlau canlynol sy'n cael eu cyflwyno gan Ganolfan Bedwyr. Gall y modiwlau hyn helpu'r myfyriwr i fagu mwy o hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg:

Mae'r modiwlau yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau iaith, a fydd o gymorth mawr i fyfyrwyr wrth gyflawni aseiniadau yn y Gymraeg, ac wrth baratoi at y byd gwaith dwyieithog yng Nghymru. Mae'r modiwlau hyn hefyd o gymorth i fyfyrwyr baratoi ar gyfer Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Bl 1	CCB1001 CCB1201	Sgiliau Defnyddio'r Gymraeg	10 Credyd	Sem 1 neu 2
Bl 2 a 3	CCB2201 CCB3201	Sgiliau Defnyddio'r Gymraeg	10 credyd	Sem 2
Bl 2 a 3	CCB2202 CCB3202	Ymdrin â'ch pwnc yn Gymraeg	10 credyd	Sem 2

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Prif Diwtor Iaith, Eleri Hughes - eleri.hughes@bangor.ac.uk

(ii) cyfieithu

Mae'r uned gyfieithu yn cyfieithu nifer fawr o ddogfennau gweinyddol ac academiaidd ar gyfer pob ysgol ac adran yn y brifysgol. Mae dau wasanaeth y gallwch sôn wrth fyfyrwyr amdanynt:

Cyfieithu traethodau myfyrwyr

Mae gan fyfyrwyr hawl i gyflwyno traethodau yn Gymraeg, hyd yn oed os nad yw'r tiwtor/darlithydd yn deall Cymraeg. Cyfrifoldeb y tiwtor/darlithydd yw cysylltu â'r Uned Gyfieithu i drefnu cyfieithiad i'r Saesneg.

Un o bryderon rhai myfyrwyr yw y gallai'r cyfieithiad newid ansawdd eu traethawd. Gwaith y cyfieithwyr yw ceisio adlewyrchu arddull, cywair a lefel iaith y cynnwys gwreiddiol, felly bydd y cyfieithiad yn adlewyrchu'r gwreiddiol mor agos â phosib.

Dyma'r camau y dylid eu dilyn i drefnu cyfieithiad o draethawd myfyriwr:

- Y darlithydd/tiwtor yn pennu dyddiad ar gyfer cyflwyno'r traethawd.
- Y darlithydd/tiwtor i sicrhau bod y myfyrwyr yn gwybod o'r dechrau y gallant gyflwyno'r traethawd yn Gymraeg os ydy'n well ganddynt.
- Y myfyrwyr sydd eisiau cyflwyno'r traethawd yn Gymraeg i sicrhau bod y darlithydd/tiwtor yn gwybod hynny mor fuan â phosib.
- Y darlithydd/tiwtor i gysylltu â'r Uned Gyfieithu i'w rhagrybuddio y bydd traethawd/traethodau i'w cyfieithu ar y ffordd ar y dyddiad cyflwyno/cau.
- Unwaith mae'r darlithydd/tiwtor wedi derbyn y traethodau, dylid anfon y gwaith at yr Uned Gyfieithu drwy fewngofnodi i <http://cyfieithu.bangor.ac.uk>, a thrafod dyddiad i'w dychwelyd.

- Fel canllaw, dyma'n fras, faint o amser mae'n ei gymryd i gyfieithu traethawd:
 - o dan 2000 o eiriau: 5 diwrnod gwaith
 - rhwng 2000 a 5000 o eiriau: 5-10 diwrnod gwaith
 - dros 5000 o eiriau: i'w drafod

Yn aml, bydd modd gwneud y gwaith ynghynt, ond mae hyn yn llwyr ddibynnu ar lwyth gwaith y cyfieithwyr. Er mwyn derbyn y traethawd yn ôl mewn da bryd, dylid anfon y gwaith at yr uned mor fuan â phosib.

Cyfieithu cyflwyniadau myfyrwyr

Yn aml, bydd gofyn i fyfyrwyr wneud cyflwyniad o flaen eu cyd-fyfyrwyr. Mae gan y myfyrwyr hawl i wneud y cyflwyniad yn Gymraeg hyd yn oed mewn dosbarthiadau lle nad yw pawb yn deall Cymraeg. Cyfrifoldeb y darlithydd/tiwtor yw trefnu bod cyfieithydd ar y pryd yno i gyfieithu i'r myfyrwyr a'r staff di-Gymraeg.

Dyma'r camau y dylid eu dilyn i drefnu cyfieithydd ar y pryd ar gyfer cyflwyniad myfyriwr:

- Y darlithydd/tiwtor yn pennu dyddiad ar gyfer y cyflwyniad.
- Y darlithydd/tiwtor i sicrhau bod y myfyrwyr yn gwybod o'r dechrau y gallant gyflwyno yn Gymraeg os ydy'n well ganddynt.
- Y myfyrwyr sydd eisiau cyflwyno yn Gymraeg i sicrhau bod y darlithydd/tiwtor yn gwybod hynny mor fuan â phosib.
- Y darlithydd/tiwtor i gysylltu â'r Uned Gyfieithu i drefnu cyfieithydd ar y pryd ar y dyddiad penodedig mor fuan â phosib.
- Y myfyriwr i sicrhau bod y cyfieithydd yn cael copi o'r cyflwyniad o leiaf 5 diwrnod cyn y cyflwyniad, er mwyn rhoi amser i'r cyfieithydd ddarllen y gwaith a chwilio am unrhyw dermau arbenigol.
- Y darlithydd/tiwtor i anfon unrhyw bapurau eraill perthnasol (ee testun, cwestiwn), a rhoi gwybod faint o bobl fydd angen y gwasanaeth.
- Bydd y cyfieithydd yn sicrhau bod y gwrandawyr yn deall sut i ddefnyddio'r offer, a sicrhau nad yw'r cyfieithu ar y pryd yn amharu ar y cyflwynydd.

Cyfeiriwch bob ymholiad am gyfieithu at Llio Gwynfor, Gweinyddwraig yr Uned Gyfieithu - 01248 382038.

(iii) Cysgliad (www.bangor.ac.uk/cysgliad)

Mae'r meddalwedd cyfrifiadurol *Cysgliad* yn becyn poblogaidd dros ben, ac yn hynod ddefnyddiol ar gyfer cywiro sillafu a gwallau iaith yn y Gymraeg, ac yn addas i staff a myfyrwyr fel ei gilydd. Mae'n cynnwys:

- *Cysill* - rhaglen sy'n gwirio sillafu a gramadeg
- *Cysgeir* - casgliad o eiriaduron electronig Cymraeg/Saesneg a Saesneg/Cymraeg

Mae Cysgliad wedi'i osod ar bob cyfrifiadur yn y Brifysgol, ac mae hefyd ar gael i'w brynu o Ganolfan Bedwyr ar gyfer cyfrifiaduron personol. Mae'n syniad da i fyfyrwyr sy'n dilyn rhan o'u cwrs drwy'r Gymraeg, brynu copi i'w osod ar eu cyfrifiaduron personol. Mae'r pecyn ar gael am bris arbennig o £20 i fyfyrwyr Prifysgol Bangor.

Bydd rhai ysgolion yn trefnu sesiwn ar sut i ddefnyddio Cysgliad yn ystod yr Wythnos Groeso, felly mae'n hanfodol fod y myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yn mynd i'r sesiwn honno er mwyn cael gwybod sut i'w ddefnyddio'n iawn.

Gall Canolfan Bedwyr hefyd drefnu sesiynau hyfforddi ymarferol ar gyfer staff. Am fwy o fanylion, neu i brynu copi o Cysgliad, cysylltwch â Judith Hughes ar judith.hughes@bangor.ac.uk neu ffoniwch 01248 383293.

(iv) terminoleg

Os ydy myfyrwyr neu staff yn methu â dod o hyd i'r term cywir am rywbeth, neu'n cael trafferth defnyddio termau technegol, mae'r adnoddau ar-lein isod yn fan cychwyn da. Maent yn cynnwys ystod eang o eiriaduron termau dwyieithog mewn nifer o feysydd gwahanol:

- Termau Addysg Uwch ar y Porth – www.porth.ac.uk/termau
- Y Termiadur www.bangor.ac.uk/termiadur
- Porth Termau Cenedlaethol Cymru www.termiau.org/porth

Yn ogystal, mae cymorth ar gael gan derminolegydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol sydd wedi'i lleoli yng Nghanolfan Bedwyr. Mae croeso i staff a myfyrwyr gysylltu â hi: Dr Tegau Andrews t.andrews@bangor.ac.uk

(v) cymorth ar-lein

Cymorth Cymraeg – Rhoi'r iaith ar waith

www.bangor.ac.uk/cymorthcymraeg

Mae 'Cymorth Cymraeg' yn crynhoi ynghyd ar wefan y Brifysgol, pob math o dempledi parod, adnoddau clywedol a chyfrifiadurol i roi cymorth ymarferol i staff a myfyrwyr y Brifysgol ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Mae'n adnodd gwerthfawr iawn sy'n cynnwys:

- ffeiliau sain er mwyn clywed sut i ynganu'n gywir

- canllawiau ar sut i ysgrifennu'n gywir
- ymadroddion defnyddiol
- cyfarwyddiadau ar sut i osod eich cyfrifiadur i weithio gyda'r Gymraeg

(vi) canllawiau ieithyddol

Mae canllawiau ieithyddol cyffredinol ar gael sy'n cynorthwyo rhywun i ysgrifennu Cymraeg cywir a chllir, er enghraifft:

- *Llawlyfr Gloywi Iaith (£4 i staff a myfyrwyr Bangor)*

Mae ar gael i'w brynu o Ganolfan Bedwyr. Os am gopi, cysylltwch â Judith Hughes ar judith.hughes@bangor.ac.uk neu ffoniwch 01248 383293.

7. Cefnogaeth astudio i fyfyrwyr

Sgiliau astudio

Er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cael y cymorth gorau gyda'u hastudiaethau, mae sesiynau sgiliau astudio ar gael er mwyn cynorthwyo myfyrwyr i fagu sgiliau traws-ddisgyblaethol, er enghraifft:

- cymryd nodiadau
- cynllunio traethodau
- paratoi at gyflwyniadau llafar
- mathemateg ac ystadegau
- darllen gweithredol
- meddwl yn feirniadol
- llunio cyfeiriadau
- osgoi llên-ladrad

Mae'r gefnogaeth hon ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

8. Myfyrwyr ôl-radd cyfrwng Cymraeg

Mae cyfleoedd datblygu cyfrwng Cymraeg ar gael sydd wedi eu cynllunio'n arbennig ar gyfer myfyrwyr ôl-radd. Dyma'r ddarpariaeth bresennol:

(i) Sesiwn Gynefino cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr ôl-radd newydd

Cynhelir hanner diwrnod o hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr ôl-radd newydd yn fuan ar ôl yr Wythnos Groeso. Mae'r sesiwn yn cynnwys cyflwyniadau, sesiynau gwybodaeth a chyfle i gymdeithasu.

(ii) Y Fforwm Drafod

Fforwm ar gyfer myfyrwyr ôl-radd ydy'r Fforwm Drafod. Cafodd ei sefydlu er mwyn datblygu'r rhwydwaith o ysgolheigion newydd sydd yn gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor.

Mae'r fforwm yn cyfarfod tua dwywaith bob semester ac mae'n gyfle i rannu profiadau ac arferion da am faterion sy'n ymwneud ag ymchwil a dysgu. Ceir cyflwyniadau gan siaradwyr gwahanol bob semester. Yn y gorffennol, mae'r fforwm wedi trafod pynciau megis datblygu modiwlau newydd, cyflwyno erthyglau, a dulliau dysgu sy'n annog myfyrwyr i gymryd rhan mewn seminarau.

Am fwy o fanylion, cysylltwch ag Eirian Jones ar e.jones@bangor.ac.uk

(iii) Ysgoloriaethau ôl-raddedig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynnig ysgoloriaethau ar gyfer myfyrwyr sydd yn astudio cyrsiau Meistr wedi eu haddysgu (MA, MSc ac ati). Er mwyn derbyn ysgoloriaeth ôl-radd, rhaid:

- dilyn o leiaf 60 credyd o rhan 1 y cwrs drwy'r Gymraeg, a
- chyflwyno'r traethawd hir yn Gymraeg

Mae rhestr o'r cyrsiau cymwys, a manylion llawn am sut i wneud cais i'w cael ar www.colegcymraeg.ac.uk

(iv) Rhaglen Hyfforddiant a Datblygu Staff y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Bob blwyddyn, mae'r Coleg yn cynnig rhaglen genedlaethol o sesiynau datblygu staff. Estynnir gwahoddiad i unrhyw fyfyrwyr ôl-radd, myfyrwyr ymchwil, neu staff i fynychu. Ceir sesiynau ar faterion megis addysgu dwyieithog, rheoli amser, ymchwil a chyhoeddi, a chydweithio sefydliadol. Mae manylion am y gweithdai hyn yn cael eu dosbarthu drwy e-bost at aelodau'r Fforwm Drafod ac aelodau'r Ysgol Astudiaethau trwy'r Gymraeg. Am fwy o fanylion, cysylltwch â Dr. Dylan Phillips ar d.phillips@colegcymraeg.ac.uk

9. Coleg Cymraeg Cenedlaethol



Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn bodoli ers Ebrill 1af 2011. Bwriad y Coleg yw cynllunio, cyllido a hybu addysg cyfrwng Cymraeg mewn prifysgolion.

Nid yw'r Coleg yn bodoli mewn un lleoliad daearyddol nac yn dyfarnu ei raddau ei hun ond, yn hytrach, yn gweithio gyda'r sefydliadau addysg uwch presennol yng Nghymru.

Mae 'cangen' o'r Coleg ym mhob prifysgol yng Nghymru, ac mae cangen Bangor wedi ei lleoli yng Nghanolfan Bedwyr.

Prif swyddogaethau'r Coleg yw:

- dyfarnu ysgoloriaethau i fyfyrwyr – mae mwy o fanylion am hyn yn adran 4 uchod.
- sicrhau bod staff cyfrwng Cymraeg ar gael i ddarlithio drwy'r Gymraeg.
- sicrhau bod adnoddau Cymraeg ar gael i gefnogi'r dysgu.

Ymaelodi â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Rydym am annog pob myfyriwr sy'n siarad Cymraeg i ddod yn aelodau o'r Coleg. Trwy ymaelodi, bydd myfyrwyr yn derbyn gwybodaeth am weithgareddau a datblygiadau'r Coleg, a manylion am gyfleoedd megis ysgoloriaethau. Mae'n hollbwysig bod y myfyrwyr hynny sy'n dilyn modiwlau cyfrwng Cymraeg yn ymaelodi, er mwyn cael mynediad ar yr adnoddau dysgu ar Y Porth. Mae modd ymaelodi drwy ddilyn y camau ar y linc yma: <http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/ymaelodi/>

Mae'r Coleg hefyd yn cyflogi nifer o swyddogion project cenedlaethol, sydd wedi eu lleoli ym Mangor:

Dr Tegau Andrews, Terminolegydd t.andrews@bangor.ac.uk

Stephen Rees, Cydlynnydd Cerddoriaeth s.p.rees@bangor.ac.uk

Rhiannon Heledd Williams, Swyddog Datblygu'r Gymraeg fel pwnc gradd r.h.williams@bangor.ac.uk

Am fwy o wybodaeth, ewch i www.colegcymraeg.ac.uk neu cysylltwch ag Eirian Jones, Swyddog Cangen y Coleg ym Mangor ar e.jones@bangor.ac.uk

10. Y Porth

www.porth.ac.uk

Llwyfan e-ddysgu cydweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ydy'r Porth. Fe'i sefydlwyd yn 2009 er mwyn annog prifysgolion i rannu adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg â'i gilydd, a hwyluso'r broses o ddysgu modiwlau ar y cyd. Mae'n cynnwys adnoddau a deunyddiau electronig, a modiwlau sydd wedi eu creu gan brifysgolion Cymru dan nawdd y Coleg. Mae wedi datblygu i fod yn ffocws hollbwysig ar gyfer astudio ac addysgu cyrsiau prifysgol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'n cynnwys:

- **adnoddau agored** e.e. oriel o wefannau, termau addysg uwch, adnoddau modiwlau
- **adnoddau cyfyngedig** ar gyfer staff a myfyrwyr prifysgolion Cymru
- **modiwlau** e.e. deunyddiau cefnogol modiwlau
- **deunyddiau gweithdai datblygu staff y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

Ai fersiwn Gymraeg o Blackboard ydy'r Porth? Be ydy'r gwahaniaethu rhwng y ddau?

Mae'r Porth yn seiliedig ar Blackboard ac mae ar gael yn y Gymraeg yn union fel y mae Blackboard ar gael yn y Gymraeg ym Mangor. Y gwahaniaeth rhwng y ddau yw bod Blackboard ym Mangor yn gyfyngedig i staff a myfyrwyr Prifysgol Bangor yn unig tra bo'r Porth ar gael i holl brifysgolion Cymru.

Mae'r Porth yn bwysig ar gyfer creu cymuned academiaidd Gymraeg, ac mae hefyd yn cynnwys cofrestr o'r holl ddarlithwyr cyfrwng Cymraeg sy'n gweithio ym mhrifysgolion Cymru ar hyn o bryd.

Sut mae cofrestru?

Er mwyn cael mynediad at *rai o'r* adnoddau, mae'n rhaid i staff a myfyrwyr gofrestru. Mae hyn yn hawdd - dim ond dilyn y cyfarwyddiadau ar dudalen flaen y wefan. Wedi cofrestru, bydd gennych fynediad at *rai o'r* adnoddau. Er mwyn cael mynediad at adnoddau rhai modiwlau, rhaid i fyfyrwyr sicrhau eu bod wedi cofrestru ar y modiwl o fewn y Porth - y darlithydd ddylai wneud yn siŵr fod hyn yn digwydd.

Oes modd cael mynediad i'r Porth o Blackboard?

Y ffordd orau o fynd at Y Porth yw drwy'r wefan <http://www.porth.ac.uk>. Yma, gellir pori drwy'r adnoddau agored neu logio i mewn er mwyn cael mynediad at adnoddau pellach. Mae'n ddigon hawdd creu dolen o Blackboard Bangor at wefan Y Porth.

11. UMCB/Undeb y myfyrwyr

Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor (UMCB)

Mae UMCB yn gweithio er budd y myfyrwyr sy'n siarad, neu'n dysgu'r Gymraeg. Mae'n trefnu digwyddiadau er mwyn sicrhau bod yr aelodau yn gallu cymdeithasu yn Gymraeg. Mae'n cynnwys:

- Cymdeithas Llywelyn – ar gyfer dysgwyr
- Y Ddraenen – cylchgrawn Cymraeg
- Y Llef – papur newydd Cymraeg
- Aelwyd JMJ

Mae UMCB yn sefydliad annibynnol ar wahân i'r Undeb. Y Llywydd am 2012/13 ydi Mared Jones .

mared.jones@myfyrwyrbangor.com
www.undeb.bangor.ac.uk/umcb/

12. Cysylltiadau defnyddiol

Cydlynwyr cyfrwng Cymraeg

Mae yna gydlynwr cyfrwng Cymraeg ym mhob ysgol. Maent ar gael i gynorthwyo myfyrwyr gyda phob agwedd ar ddysgu trwy'r Gymraeg yn eu hysgol. Mae croeso i'r myfyrwyr gysylltu'n uniongyrchol â'r bobl yma i drafod unrhyw agwedd ar eu cwrs neu unrhyw fater sy'n ymwneud ag astudio drwy'r Gymraeg/yn ddwyieithog. Dyma'r rhestr:

Addysg	Dr Gwyn Lewis	01248 383108	w.g.lewis@bangor.ac.uk
Dysgu Gydol Oes	Shân Ashton	01248 383224	s.ashton@bangor.ac.uk
Busnes	Dr Sara Parry	01248 388457	s.parry@bangor.ac.uk
Gwyddorau Cymdeithas	Dr Myfanwy Davies	01248 382140	myfanwy.davies@bangor.ac.uk
Y Gyfraith	Dewi Llŷr Jones	01248 382219	d.l.jones@bangor.ac.uk
Ast. Creadigol a'r Cyfryngau	Geraint Ellis	01248 383722	g.w.ellis@bangor.ac.uk
Cerddoriaeth	Dr Pwyll ap Sion	01248 383808	papsion@bangor.ac.uk
Athroniaeth a Chrefydd	Dr Eryl Wyn Davies	01248 382080	e.w.davies@bangor.ac.uk
Y Gymraeg	Yr Athro Peredur Lynch	01248 382245	p.i.lynch@bangor.ac.uk
Hanes, Hanes Cymru ac Archaeoleg	Nia Powell	01248 382249	n.m.w.powell@bangor.ac.uk
Ieithoedd Modern	Dr Manon Mathias	01248 382130	m.mathias@bangor.ac.uk
Ieithyddiaeth ac Iaith Saesneg	Dr Peredur Davies	01248 382198	p.davies@bangor.ac.uk
Amgylchedd, Adnoddau Naturiol a Daaryddiaeth	Dr Paula Roberts	01248 382976	p.roberts@bangor.ac.uk
Gwyddorau Eigion	Dr Dei Huws	01248 382523	d.g.huws@bangor.ac.uk
Gwyddorau Biolegol	Yr Athro Deri Tomos	01248 382362	a.d.tomos@bangor.ac.uk
Gwyddorau Gofal Iechyd	Gwerfyl Roberts	01248 383165	gwerfyl.w.roberts@bangor.ac.uk
Seicoleg	Dr Nia Griffith	01248 382543	n.griffith@bangor.ac.uk
Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer	Sarah Williams	01248 388395	sarah.williams@bangor.ac.uk
Cemeg	Dr Andrew Davies Dr Keith Hughes	01248 383636 01248 382379	r.a.davies@bangor.ac.uk keith.hughes@bangor.ac.uk
Peirianeg Electroneg	Dr Iestyn Pierce	01248 382732	i.pierce@bangor.ac.uk
Cyfrifiadureg	Dr Iestyn Pierce	01248 382732	i.pierce@bangor.ac.uk